



Rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cyngor Sir y Fflint

Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney

Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEG)

Mai 2015: Fersiwn 2

Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg (AEG)

Crynodeb

1. Enw'r Cynnig/Polisi:

Lleihau ystod oedran Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney (ysgol cyfrwng Saesneg yn y gymuned) o 11-18 oed i 11-16 oed, terfynu'r ddarpariaeth ôl-16 yn yr ysgol o 31 Awst 2016.

2. Cyfarwyddiaeth/Adran:

Addysg ac Ieuenctid

3. Swyddog Arweiniol:

Damian Hughes, Cydlynnydd Rhaglen

4. Prif nod/diben/canlyniad y polisi:

Y cynnig yw lleihau ystod oedran ysgol uwchradd Dewi Sant, Saltney (ysgol cyfrwng Saesneg yn y gymuned) o 11-18 oed i 11-16 oed, terfynu'r ddarpariaeth ôl-16 yn yr ysgol o 31 Awst 2016.

O fis Medi 2016, bydd darpariaeth dysgu ôl-16 ar gael i fyfyrwyr Ysgol Uwchradd Dewi Sant, Saltney yn y ganolfan ôl-16 bwrpasol yng Ngholeg Cambria, Cei Connah.

5. A ymgynghorwyd â gweithwyr/defnyddwyr gwasanaeth/y cyhoedd ar y newidiadau arfaethedig: DO/NADDO

DO

Mae cyfarfod ymgynghori cyhoeddus eisoes wedi'i gynnal yn ystod yr ymgynghoriad gwreiddiol yn 2014, rhoddir cyfle pellach i rieni/gofalwyr, plant a phobl ifanc gyflwyno sylwadau fel rhan o'r cyfnod ymgynghori diweddaraf a gynhelir yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2013).

6. Beth sy'n cael ei wneud i gyfyngu ar unrhyw effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a/neu grwpiau a ddiogelir (gweler adran 2):

Bydd ymgynghori a rhannu'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb gyda Grŵp Sicrhau Ansawdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir y Flint yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys Swyddogion y Cyngor ac aelodau'r cyhoedd o'r gymuned nodweddiol a ddiogelir a bydd yn ystyried yr effeithiau a nodwyd ac yn darparu adborth ar unrhyw ffyrdd posibl i gyfyngu ar effaith negyddol neu hyrwyddo effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg a/neu grwpiau a ddiogelir. Bydd yr asesiad hwn yn dod yn broses organig drwy gydol y cyfnod ymgynghori.

7. Sut bydd y cynigion yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da:

Bydd gan y ganolfan ôl-16 ei ethos ei hun ar hybu cydraddoldeb, dileu gwahaniaethu a hyrwyddo cysylltiadau da a bydd yn sicrhau y gall myfyrwyr sy'n trosglwyddo o ysgolion partneriaeth gael gafael ar yr ystod lawn o gyrsgiau fel y rhagnodir ym Mesur Dysgu a Sgiliau Llywodraeth Cymru. (Cymru)

Mae grŵp cynghori wedi'i sefydlu ac mae'n gyfrifol am ddatblygu methodoleg gweithredu sy'n cynnwys yr ethos o weithio mewn partneriaeth ac integreiddio i'r modelau gweithredu ar gyfer y cyfleuster newydd. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr llywodraethwyr y Coleg, swyddogion


Cyngor Sir y Fflint a phenaethiaid a chynrychiolwyr llywodraethwyr ysgolion y bartneriaeth, gan gynnwys Ysgol Uwchradd Dewi Sant.

8. A oes cynllun gweithredu ar waith?

OES

Enw:

Llofnod:



Teitl y Swydd:

Templed Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg

Nod asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg (EIA) yw sicrhau bod polisiâu yn helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Mae'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn cyfrannu at lunio polisi effeithiol drwy roi cyfle i leihau risg a chynyddu manteision polisi, felly sicrhau bod gennym y polisi gorau posibl ar waith. Mae hefyd yn ein helpu i fodloni ein gofynion o dan ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. **Drwy'r ddogfen hon defnyddir y gair 'polisi' i gyfeirio at beth yr ydym yn asesu. Yn y cyd-destun hwn, mae'r term yn cynnwys y gwahanol bethau a wnawn, gan gynnwys strategaethau, swyddogaethau, gweithdrefnau, arferion, penderfyniadau, mentrau a phrosiectau.**

Dylai pob Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ystyried effaith bosibl polisiâu sy'n ymwneud â holl feysydd cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg gan gynnwys hawliau dynol a materion economaidd gymdeithasol. Wrth gynnal asesiad dylech ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion. Bydd ein hymagwedd at Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn ein helpu i gryfhau ein gwaith i hybu cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg. Bydd hefyd yn helpu i nodi ac ymdrin ag unrhyw effeithiau gwahaniaethol posibl cyn cyflwyno polisi a lleihau'r risg o heriau cyfreithiol posibl. Wrth gynnal Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb dylech ystyried canlyniadau negyddol a chadarnhaol eich cynigion.

Os yw prosiect wedi'i gynllunio ar gyfer grŵp penodol, mae hefyd angen i chi feddwl am pa effeithiau posibl y gallai gael ar feysydd cydraddoldeb eraill. Mae mwy o gyngor, arweiniad a hyfforddiant ar gael a dylid eu defnyddio wrth gynnal Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb.

1. Casglu Data a Thystiolaeth

<p>Pa dystiolaeth e.e. data, ymchwil, canlyniadau ymgysylltu ac ymgynghori ydych chi wedi'u defnyddio i ystyried sut y gallai'r polisi hwn effeithio ar:-</p> <p>i) bobl â nodweddion a ddiogelir</p> <p>ii) cyfleoedd i unigolion/cymunedau ddefnyddio'r iaith Gymraeg</p> <p>Cysylltwch ag unrhyw ddogfennau perthnasol. Disgrifiwch gyda phwy y gwnaethoch gysylltu a'r canlyniadau (Mae'n ofyniad statudol i ymgysylltu â phobl â nodweddion a ddiogelir).</p>	<p>I ddadansoddi'r dystiolaeth i ystyried yr effeithiau ar gyfer pobl â nodweddion a ddiogelir, mae'r data Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgybl neu CYBLD (Ionawr 2015) ar gyfer Ysgol Uwchradd Dewi Sant wedi'i ddadansoddi.</p> <p>Bydd ymgynghori a rhannu'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb â Grŵp Sicrwydd Ansawdd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb Corfforaethol Cyngor Sir y Fflint yn cael ei gwblhau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys swyddogion y Cyngor ac aelodau'r cyhoedd o'r gymuned nodweddion a ddiogelir.</p> <p>Dadansoddwyd data disgyblion y gwasanaethau cynhwysiant hefyd.</p>
<p>Pa ymchwil ychwanegol, data neu ymgynghori sydd ei angen i lenwi unrhyw fylchau i ddeall effeithiau'r polisi?</p>	<p>Adroddiadau Arolwg Estyn</p>

2 Asesiad o effaith a chryfhau'r polisi

Mae'r adran hon yn gofyn i chi asesu effaith y polisi ar bob un o'r grwpiau a ddiogelir a'r iaith Gymraeg.

Yn defnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, nodwch effeithiau'r polisi hwn ar y grwpiau canlynol

Nodwch yr effaith						
	Effaith gadarnhaol	-Effaith negyddol	Dim effaith	Sut yr effeithir ar y grŵp hwn a beth yw'r dystiolaeth?	Sut y gallwch chi gyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol ¹
	Ydy / Nac ydy	Ydy / Nac ydy	Ydy / Nac Ydy			
Oedran <i>(ar draws y sbectrwm oedran cyfan)</i>	Y	Y	N	<p>Mae data CYBLD mis Ionawr 2015 yn dweud wrthym, o'r 508 o ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Dewi Sant, bod y nifer canlynol o ddisgyblion o fewn yr ystodau oedran canlynol:-</p> <p>Blwyddyn 7 (tua 11 oed) = 88</p> <p>Blwyddyn 8 (tua 12 oed) = 81</p> <p>Blwyddyn 9 (tua 13 oed) = 91</p> <p>Blwyddyn 10 (tua 14 oed) = 74</p> <p>Blwyddyn 11 (tua 15 oed) = 88</p> <p>Blwyddyn 12 (tua 16 oed) = 49</p> <p>Blwyddyn 13 (tua 17 oed) = 37</p>	O dan y cynigion bydd disgyblion ym mlwyddyn 12 ac 13 ar hyn o bryd wedi gadael y ganolfan ôl-16 yn ysgol uwchradd Dewi Sant cyn i'r ganolfan ôl-16 agor yn Medi 2016.	Bydd y cynnig felly yn cael effaith gadarnhaol ar sicrhau bod dysgwyr yn cael ystod briodol o ddewisiadau cyrsiau yn y ganolfan ôl-16 yng Ngholeg Cambria er mwyn bodloni'r mesur dysgu a galluogi'r ysgol i ganolbwyntio ei adnoddau

¹ Pa fesurau mae'r polisi yn eu cynnwys i helpu i hyrwyddo cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, lleihau gwahaniaethu a hybu perthynas dda?

						<p>addysgu ar gyflwyno'r cwricwlwm 11-16.</p> <p>Bydd y cynnig yn cynyddu cyfleoedd dysgu ac yn galluogi disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial a lleihau'r amser teithio.</p>
--	--	--	--	--	--	--

	+ effaith gadarnhaol Ydy / Nac ydy	-effaith negyddol Y/N	Dim effaith Ydy/Nac ydy	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol ²
Anabledd	Y	N	Y	<p>Mae data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cadarnhau bod llai na 10 disgybl yn Ysgol Uwchradd Dewi Sant â Datganiad o Anghenion Arbennig.</p> <p>Mae llai na 10 disgybl ar hyn o bryd yn derbyn rhywfaint o gymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol ADY.</p>	<p>Mae gan Wasanaeth Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol y Cyngor nifer o feysydd gwasanaeth arbenigol sy'n rhyngberthynol: Tîm Cefnogaeth Weinyddol, Gwasanaethau Synhwyraidd / Gwasanaethau Iaith a Llafaredd / Athrawon Cynhwysiant Cwricwlwm, Gwasanaethau Cymorth Dysgu (Dyslecsia), Gwasanaethau Cymorth Addysgu, cefnogaeth Anhwyllder Sbectrw m Awtistig, Gwasanaeth Seicoleg Addysg.</p> <p>Maent wedi ymrwymo i ddatblygu polisiau ac arferion sy'n sicrhau cyfle addysgol a mynediad cyfartal, yn diogelu disgyblion diamddiffyn ac sy'n canolbwyntio ar godi cyflawniad pob dysgwr a chynyddu eu cyfranogiad yn eu hysgolion a'u cymunedau.</p>	<p>Bydd y ganolfan ôl-16 arfaethedig yng Ngholeg Cambria yn gwbl hygyrch o ran Deddf Cydraddoldeb 2010, a disgwylir y bydd y ganolfan ddysgu ôl-16 newydd yn cynyddu cyfleoedd dysgu ac yn galluogi disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial.</p>

² Pa fesurau mae'r polisi yn eu cynnwys i helpu i hybu cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg, lleihau gwahaniaethu a hybu perthynas dda?

	+ effaith gadarnhaol Ydy / Nac ydy	-effaith negyddol Ydy / Nac ydy	Dim effaith Oes/ Nac Oes	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut allwch chi hybu effaith gadarnhaol*
Ailbennu rhywedd	N	N	Y	Nid yw data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon.	Os bydd yna ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Dewi Sant â'r nodwedd a ddiogelir hon, byddant yn derbyn y cymorth bugeiliol priodol gan Ysgol Uwchradd Dewi Sant a chanolfan ôl-16 Coleg Cambria.	Mae'r ganolfan ddysgu ôl-16 y cyfeirir ati yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
Priodas a Phartneriaethau Sifil (P a PhS)	N	N	Y	Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon. Yn unol â'r gyfraith, ni all disgyblion dan 16 oed briodi na ffurfio partneriaeth sifil ac mae angen caniatâd rhieni ar ddisgyblion dan 18 oed sy'n dymuno priodi/ffurfio partneriaeth sifil. Felly, mae'r nodwedd a ddiogelir hon yn berthnasol i ddisgyblion blynyddoedd 12 ac 13 yn unig.	Os bydd yna ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Dewi Sant â'r nodwedd a ddiogelir hon, byddant yn derbyn y cymorth bugeiliol priodol gan Ysgol Uwchradd Dewi Sant a chanolfan ôl-16 Coleg Cambria.	Mae'r ganolfan ddysgu ôl-16 y cyfeirir ati yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.
Beichiogrwydd a Mamolaeth (B a M)	N	N	Y	Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon.	Os bydd yna ddisgyblion o Ysgol Uwchradd Dewi Sant â'r nodwedd a ddiogelir hon, byddant yn derbyn y cymorth bugeiliol priodol gan Ysgol Uwchradd Dewi Sant a chanolfan ôl-16 Coleg Cambria.	Mae'r ganolfan ddysgu ôl-16 y cyfeirir ati yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

	+ effaith gadarnhaol Y/N	-effaith negyddol Y/ N	Dim effaith Y/ N	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol*
Hil	N	N	Y	<p>Mae data CYBLD mis Ionawr 2015 yn cadarnhau bod 96% o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn wyn Prydeinig.</p> <p>Mae adroddiad arolygu ESTYN 2011 yn datgan 'Bod rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol (ABCH) wedi'i chydgysylltu'n dda yn arwain dysgwyr tuag at wneud dewisiadau hyderus a gwybodus. Ceir gweithdrefnau wedi eu rheoli'n dda ar gyfer sefydlu.</p> <p>Mae amrywiol weithgareddau yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.'</p> <p>http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6644013/</p> <p>Mae data ffurflen CYBLD mis Ionawr 2015 yn cadarnhau bod ** disgybl o Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn derbyn cymorth ar gyfer Saesneg fel iaith Ychwanegol.</p>	<p>Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu cefnogaeth ar gyfer plant nad yw Saesneg yn iaith 1af iddynt drwy'r tîm 'Saesneg fel iaith ychwanegol' yn y Gwasanaeth Cynhwysiant.</p>	<p>Bydd disgyblion ar draws y gwahanol gefndiroedd ethnig o ysgol uwchradd Dewi Sant yn cael cynnig darpariaeth dysgu ôl-16 amgen yng nghanolfan ôl-16 Coleg Cambria.</p>

	effaith negyddol Y / N	-effaith negyddol Y / N	Dim effaith Y / N	Sut yr effeithir ar y grŵp a beth yw'r dystiolaeth?	Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol*
Crefydd / Cred	N	N	Y	Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon. Nid yw ysgol uwchradd Dewi Sant yn ysgol enwadol cysylltiedig.	Ceir addysg ôl-16 enwadol ac anenwadol o fewn Sir y Fflint, mae gan ddisgyblion y dewis	
Rhyw <i>(dynion, menywod, bechgyn, merched</i>	N	N	Y	Mae data CYBLD Ionawr 2015 yn dangos bod 508 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Uwchradd Dewi Sant, a 250 = yn fechgyn 258 = yn ferched	Mae perfformiad rhwng y rhywiau ar lefel yr ysgol yn cael ei fonitro ac mae camau ar waith drwy gynllun gweithredu'r ysgol. Byddai hyn yn ymdrin ag unrhyw fylchau, gan gyfeirio cefnogaeth i'r meysydd pwnc angenrheidiol.	
Tueddfryd Rhywiol	N	N	Y	Nid yw data CYBLD Ionawr 2015 yn cynnwys data ar y nodwedd a ddiogelir hon.	Os oes disgyblion o Ysgol Uwchradd Dewi Sant â'r nodwedd a ddiogelir hon, byddant yn derbyn y gefnogaeth fugeiliol briodol gan Ysgol Uwchradd Dewi Sant a Choleg Cambria.	Mae'r ganolfan ddysgu ôl-16 y cyfeirir ati yn y ddogfen hon yn gallu darparu ar gyfer disgyblion yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

	+ effaith gadar nhaol Y / N	-effaith negydd ol Y / N	Dim effaith Y / N	Sut yr effeithir ar y grŵp hwn a beth yw'r dystiolaeth?	Sut allech chi gyfyngu ar yr effaith negyddol?	Sut y gallwch chi hybu effaith gadarnhaol*
Y Gymraeg	Y	N	Y	Mae Ysgol Uwchradd Dewi Sant yn ysgol cyfrwng Saesneg sy'n cynnig Cymraeg fel rhan o'r cwricwlwm.	Nid oes unrhyw effaith negyddol, bydd disgyblion yn cael cynnig dysgu ôl-16 ar sail eu cyfrwng iaith presennol.	O ystyried maint y ddarpariaeth ôl-16 mae potensial i fwy o gyrsiau gael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg os bydd galw gan fyfyrwyr Mae yna opsiwn i ddisgyblion yn yr ardal i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgol Maes Garmon, yr Wyddgrug
Arall <i>(effeithiau ychwanegol o'r fath hawliau dynol, tlodi, pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig)</i>	N	N	Y	Nid oes unrhyw effeithiau cymunedol a nodwyd ar gyfer cynnig ysgol uwchradd Dewi Sant arfaethedig i newid ystod oedran ysgol o 11-18 oed i 11-16 oed.		

Os na chymerir unrhyw gamau i ddileu neu leddfu effaith negyddol/difrifol dylech gyfiawnhau pam	
--	--

4. Caffael

Ydy'r polisi hwn i gael ei weithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan contractwyr? Os ydy, nodwch pa gamau a gymerwch i adeiladu i bob cam o'r broses gaffael y gofyniad i ystyried y dyletswyddau cydraddoldeb a Deddf yr iaith Gymraeg.	Ddim yn berthnasol
--	--------------------

Bydd angen i chi feddwl am:

- tendro a manylebau
- proses wobrwyo
- cymalau contract
- mesurau perfformiad, a monitro a mesurau perfformiad.

5. Monitro, Gwerthuso ac Adolygu

<p>Sut fyddwch yn monitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi newydd?</p> <p>Gallai hyn gynnwys addasiadau neu estyniadau i systemau monitro presennol, amserlenni perthnasol ac ymrwymiad i gynnal adolygiad Aseiad o Effaith ar Gydraddoldeb unwaith y bydd y polisi yn ei le ers blwyddyn. Rhestrwch fanylion unrhyw waith dilynol a wneir o ran y polisi (e.e. arolwg, proses monitro penodol ac ati).</p>	<p>Adolygiad o wybodaeth arolwg CYBLD ar gyfer gwasgaru safleoedd ysgolion</p> <p>Ionawr 2016</p> <p>Ionawr 2017</p> <p>Adolygu gyda Choleg Cambria ar effeithiau ar ddisgyblion sy'n symud o ysgol uwchradd Dewi Sant i'r ganolfan ôl-16.</p>
<p>Rhowch fanylion sut y bydd canlyniadau'r aseiad o effaith yn cael eu cyhoeddi, gan gynnwys canlyniadau'r ymgynghoriad a gwybodaeth fonitro os yw'n berthnasol.</p> <p>Cyhoeddir crynodebau o ganlyniadau pob aseiad effaith ar wefan y Cyngor. Hefyd gallech eu cyhoeddi mewn cyfryngau perthnasol eraill.</p>	<p>Cyhoeddi ar Infonet</p> <p>Cyhoeddi ar wefan Cyngor Sir y Fflint</p> <p>Dolen ar wefan yr ysgol</p> <p>Ymgynghoriad Cyhoeddus</p>

6. Cynllun Gweithredu

Mae'r isod yn gyfle i nodi sut y bydd unrhyw effaith negyddol yn cael ei liniaru. Mae hefyd yn caniatáu i chi restru sut y byddwch yn mynd i'r afael ag unrhyw fylchau yn y polisi. Edrychwch yn ôl drwy gamau 1 – 7 yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a chynnwys unrhyw gamau a nodwyd yn y cynllun isod. Sicrhewch fod pob cam gweithredu wedi'i restru gyda dyddiad targed ac wedi'i neilltuo i aelod penodol o staff. **Dylai'r camau gweithredu hyn gael eu hymgorffori mewn cynlluniau Gwasanaeth a Chyfarwyddiaeth.**

Cam Gweithredu	Swyddog Cyfrifol	Erbyn pryd	Cynnydd
Cyhoeddi crynodeb o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb ³	Damian Hughes	05/06/15	
Rhannu copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gyda Gwasanaethau Cynhwysiant Addysg Sir y Fflint cyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus	Damian Hughes	04/06/15	

³ Bydd angen cyhoeddi crynodeb o AEG lle mae yna effaith sylweddol

7 – Cymeradwyo

Cam terfynol yr AEG yw cymeradwyo'r ddogfen yn ffurfiol fel asesiad cyflawn, trwyadl a chadarn


Aseswyd y polisi llawn o ran ei effeithiau posibl ar gydraddoldeb ac ymdriniwyd â holl bryderon perthnasol.

(Unwaith y byddwch wedi cwblhau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb llofnodwch isod ac anfonwch ymlaen at gynrychiolydd y Gyfarwyddiaeth Cydraddoldeb)


Aelodau o'r Tîm Asesu

Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Jennie Williams	Swyddog Prosiect	Cyngor Sir y Fflint
Sarah Thomas	Swyddog Prosiect	Cyngor Sir y Fflint

Gwiriad ansawdd: Mae'r ddogfen wedi'i gwirio gan:

Enw: Damian Hughes
Teitl y swydd: Cydlynnydd Rhaglen, Ysgolion yr 21ain Ganrif
Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuencid
Dyddiad: 4/6/2015
Llofnod: 

Lefel Cyfarwyddwr (cymeradwyo)

Enw: Ian Budd
Teitl y swydd: Prif Swyddog
Cyfarwyddiaeth: Addysg ac Ieuencid
Dyddiad: 4/6/2015
Llofnod: 

Anfonwch y dogfennau ymlaen at Steph Aldridge, Polisi a Pherfformiad, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug - stephanie.aldridge@flintshire.gov.uk